

Diogelu- Ein datganiad o fwriad¹

- Mae'n ddyletswydd ar aelodau o'r gymuned eglwysig² i sicrhau diogelwch plant ac oedolion bregus ym mhob gweithgaredd.
- Mae'r eglwys yn ymrwymo i weithredu ei pholisi a'i gweithdrefnau ynghylch amddiffyn plant ac oedolion bregus.
- Mae'r eglwys yn ymrwymo i gydymffurfio â gofynion statudol ynghylch dewis a phenodi unigolion i wneud gwaith cyflogedig neu wirfoddol.
- Mae'r eglwys yn ymrwymo i ddarparu system lle bydd y rheini sy'n gofalu am blant, pobl ifanc ac oedolion bregus yn derbyn hyfforddiant a chymorth.
- Mae'r eglwys yn ymrwymo i adnabod sefyllfaoedd lle gallai plant a phobl ifanc ac oedolion bregus gael eu niweidio yn ystod gweithgareddau'r eglwys.
- Mae'r eglwys yn ymrwymo i herio unrhyw gamddefnydd o awdurdod gan unigolyn.
- Mae'r eglwys yn ymrwymo i wrando ar blant ac oedolion bregus ac ymateb yn sensitif ac yn unol â'i pholisi a chanllawiau.
- Mae'r eglwys yn ymrwymo i ymateb ar unwaith pan dynnir ei sylw at amheuaeth o gam-drin, ac i gydweithredu â'r Awdurdod Lleol neu'r Heddlu os bydd ymchwiliad i'r mater. Hefyd, mae'n ymrwymo i rannu gwybodaeth yn gyfrifol er mwyn hwyluso ymchwiliad effeithiol.
- Mae'r eglwys yn ymrwymo i roi gofal bugeiliol i'r rheini sy'n cael eu cam-drin neu eu cyfeirio at ofal bugeiliol.
- Mae'r eglwys yn ymrwymo i roi gofal bugeiliol i droseddwyr neu bobl a amheuir o fod yn droseddwyr, neu eu cyfeirio at ofal bugeiliol.
- Mae'r eglwys yn ymrwymo i weithio gyda Swyddog Hyfforddiant a Diogelu y Panel, a/neu Ysgrifenyddion Cyffredinol y tri enwad, a fydd yn rhoi cyngor ac arweiniad i eglwysi lleol ynghylch diogelu ac amddiffyn plant. Bydd yr eglwys yn cydweithredu â'r rheini sy'n cael y dasg o ymateb i achosion sy'n destun pryder a chasglu gwybodaeth yn eu cylch, o fewn y tri enwad.
- Mae'r eglwys yn ymrwymo i gefnogi ac annog rhieni a gofalwyr wrth iddynt ofalu am eu plant.

¹ Gweler tudalen 7 o'r Llawlyfr Diogelu Grwpiau bregus

² Mae'r term 'eglwys' yn cynnwys y fframweithiau enwadol canolog ac eglwysi lleol